

Allforion bwyd a diod

Gwybodaeth ar gyfer busnesau ar sut i allforio cynhyrchion bwyd a diod i wledydd y tu allan i'r Undeb Ewropeaidd.

Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (Defra) yw Awdurdod Cymwys Canolog y Deyrnas Unedig (DU) ar gyfer Masnachu Rhyngwladol. Maent yn gyfrifol am negodi marchnadoedd allforio newydd mewn gwledydd y tu allan i'r Undeb Ewropeaidd (UE), sef trydydd gwledydd, ac am sicrhau mynediad parhaus i'r marchnadoedd allforio hyn.

Ein rôl ni yw rhoi sicrwydd i Defra bod bwyd a diod a gaiff ei allforio o'r DU i drydydd gwledydd wedi'i gynhyrchu'n unol â gofynion yr UE. Rydym ni hefyd yn sicrhau ei fod yn bodloni unrhyw ofynion mewnfario ychwanegol y mae'r gyrchwlad (destination country) wedi'u gosod.

Ardystio allforion

Bydd rhai trydydd gwledydd yn gofyn bod allforion bwyd a diod wedi'u hardystio gan awdurdod llywodraethol yn y DU cyn ei allforio. Mae gwybodaeth am ardystio allforion ar gael ar wefannau [Defra](#) ac [Adran Amaeth, yr Amgylchedd a Materion Gwledig \(DAERA\)](#) yng Ngogledd Iwerddon.

Cyn i chi allforio cynhyrchion bwyd a diod o'r DU i wledydd yn yr UE a thu allan i'r UE, mae'n rhaid i chi wirio a oes unrhyw gyfyngiadau penodol gan :

- eich cwsmer
- awdurdodau'r gyrchwlad
- llysgenhadaeth y wlad berthnasol yn y DU

Nid yw'r Asiantaeth Safonau Bwyd yn gyfrifol am gyflwyno unrhyw fath o ardystiadau allforio.

Allforio bwyd a diod i wledydd yr UE

Yn yr UE, mae 'rhyddid i symud' mewn perthynas â nwyddau. Mae'r rhyddid i symud yn golygu y gall nwyddau, gan gynnwys cynhyrchion bwyd, symud yn rhydd o fewn yr UE heb wiriadau tollau.

Mae rhagor o wybodaeth ar allforion o fewn yr UE ar gael ar wefannau [Defra](#) a [DAERA](#).

Allforio bwyd a diod i wledydd y tu allan i'r UE

Mae gan wledydd unigol ofynion penodol mewn perthynas â'r mathau o ddogfennau sydd eu hangen ar gyfer cynhyrchion sy'n cael eu mewnfario. Bydd y gofynion yn amrywio yn dibynnu ar y wlad a'r math penodol o gynnyrch.

Nid oes un ffynhonnell wybodaeth ar gyfer y gofynion cynnyrch/gwlad penodol hyn. Wrth allforio bwyd a diod yn fasnachol o'r DU i wlad y tu allan i'r UE, eich cyfrifoldeb chi yw gwirio'r cyfyngiadau a'r amodau allforio sy'n berthnasol cyn i chi allforio.

Yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion (APHA) sy'n gyfrifol am gyflwyno tystysgrifau iechyd allforio ar gyfer cynhyrchion penodol sy'n dod o anifeiliaid i drydydd gwledydd penodol. Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar wefan [Defra](#).

Gall awdurdodau lleol neu gynghorau rhanbarth ddarparu ardystiadau allforio ar gyfer

cynhyrchion penodol sydd heb eu cynnwys yn nhystysgrifau iechyd allforio a gyflwynir gan APHA a DAERA. Gall hyn fod yn berthnasol i gynhyrchion:

- nad ydynt yn dod o anifeiliaid
- cynhyrchion cig wedi'u prosesu
- bwyd a diod wedi'u gweithgynhyrchu

Mae'r math o ardystiad sydd angen ei ddarparu yn benodol i'r cynnyrch sy'n cael ei allforio a gofynion y gyrchwlad.

Dylech ddarparu'r wybodaeth rydych wedi'i chasglu ar ofynion mewnfario'r gyrchwlad i'ch awdurdod lleol neu gyngor rhanbarth. Bydd hyn yn llywio'r hyn sydd angen i'r ardystiad allforio ei ddweud.

Fel arfer, isafswm yr hyn sydd ei angen ar drydydd gwledydd mewn ardystiad o'r fath yw cadarnhad bod y cynnyrch

- wedi'i gynhyrchu yn unol â rheolau hylendid yr UE
- yn addas i'w fwyta gan bobl
- ar gael i'w werthu'n rhydd yn yr UE

Gall yr Asiantaeth Taliadau Gwledig hefyd ddarparu [Tystysgrifau Gwerthu'n Rhydd](#) ar gyfer allforio cynhyrchion bwyd a diod wedi'u prosesu penodol.

Yng Ngogledd Iwerddon, [DAERA](#) sy'n gyfrifol am gyhoeddi'r Tystysgrifau Iechyd Allforio hyn.

Ffynonellau gwybodaeth ychwanegol ar allforio

Mae gan yr [Adran Fasnach Ryngwladol](#) gylch gwaith penodol i helpu busnesau i allforio a thyfu mewn marchnadoedd byd-eang. Mae'r adran wedi datblygu'r wefan [great.gov.uk](#) sy'n cynnwys cyngor wedi'i deilwra i fusnesau. Gall y cyngor hwn eich helpu chi i ddechrau allforio neu gynyddu maint y nwyddau a'r gwasanaethau rydych chi'n eu gwerthu dramor.

Mae'r wefan [Open to Export](#) yn cynnig gwybodaeth ar-lein am ddim gan y Sefydliad Allforio a Masnachu Rhyngwladol. Ei diben yw helpu busnesau bach yn y DU i baratoi i allforio ac i dyfu'n rhyngwladol.

Mae cyrff masnachu'r diwydiant sydd hefyd yn gallu eich helpu chi â chyngor ar allforio eich cynnyrch yn cynnwys:

- [Ffederasiwn Bwyd a Diod](#)
- [Cymdeithas Allforwyr Bwyd a Diod](#)
- [Ffederasiwn Masnachu Darpariaethau](#)

Gall [Cymdeithas Bwyd a Diod Gogledd Iwerddon](#) gynnig cyngor ar allforio cynhyrchion.